**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

11 Mawrth 2024

**Cyngor Dinas Casnewydd i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig**

Annwyl Julie,

Fel y gwyddoch, daeth Cyngor Dinas Casnewydd yn ddiweddar y cyngor cyntaf yng Nghymru, a'r 75ain cyngor yn y DU, i bleidleisio i roi mwy o gydnabyddiaeth i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrth ddylunio polisïau a gwasanaethau. Derbyniwyd y cynnig ar 23 Ionawr 2024, ac mae'n rhwymo'r Cyngor i wneud y canlynol:

- asesu drwy Asesiadau Effaith Cydraddoldeb effaith ar bobl â phrofiad o fod mewn gofal unrhyw benderfyniad, gwasanaethau a pholisïau a wneir ac a fabwysiedir gan y Cyngor yn y dyfodol;
- cynnwys profiad o fod mewn gofal wrth gyhoeddi ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb ac yn y cyhoeddiad blynyddol o wybodaeth yn ymwneud â phobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig mewn gwasanaethau a chyflogaeth, fel rhan o'i gyflawniad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
- parhau i chwilio'n rhagweithiol am leisiau pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal a gwrando arnynt wrth ddatblygu polisïau newydd yn seiliedig ar eu barn; a
- galw ar bob corff arall i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig hyd nes y caiff hynny ei gyflwyno mewn deddfwriaeth.[1]

Yng ngoleuni'r nifer gynyddol o gynghorau yn y DU sy'n pleidleisio i gydnabod yn ffurfiol y rhwystrau niferus a sylweddol y mae llawer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu, byddwn yn ddiolchgar iawn o gael ymateb gennych i'r cwestiynau a ganlyn:

---

[1] Cyngor Dinas Casnewydd, 'Agenda, Cyngor - Dydd Mawrth, 23ain Ionawr, 2024 5.00 pm'

1. Beth yw eich barn am y cynnig a dderbyniwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd?

2. Wrth dderbyn y cynnig, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cymryd camau i leihau'r stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu y tu hwnt i fod yn llofnodwr i Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. A yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y Siarter Rhianta Corfforaethol gwirfoddol ar ei phen ei hun yn ddigon i ddileu'r stigma y mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei wynebu?[2]

3. Mae cynnig y Cyngor yn cyfeirio'n gwbl glir at argymhelliad ein Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru lobïo i sicrhau bod profiad o fod mewn gofal yn dod yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. A wnaiff Llywodraeth Cymru ailystyried ei hymateb os bydd cynghorau eraill yng Nghymru yn ymuno â Chasnewydd i gymryd camau "i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig hyd nes y caiff hynny ei gyflwyno mewn deddfwriaeth"?

Byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 30 Ebrill fan bellaf.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

[2] Fel y'i nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad. Gweler: Llywodraeth Cymru, Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal", 05/07/23